YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
CEGIN Y CILIE.
TIPYN O BOPETH.
PRIODAS.
MARWGOFION.
CYFARFODYDD Y PASG.



Cyf. xxxvi | Ebrill, 1936 | Rhif 4

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. EBRILL, 1936. RHIF 4

"DOS I'TH YSTAFELL—."

DYSG ni i gyfrif ein dyddiau fel y dygom ein calon i ddoethineb.
Salm xc, 12.

* * *

NID ydym yn cyfrif blynyddoedd dyn hyd nes na bydd ganddo unpeth arall i'w gyfrif.—EMERSON.

* * *

NID oes eisiau ond heneiddio i ddyfod yn fwy goddefgar. Nid wyf yn gweled mewn undyn fai na fum yn euog o hono fy hun.—GOETHE.

* * *

Y grefydd oreu ydyw goddefgarwch.—VOLTAIRE.

* * *

MAE pob gwybodaeth arall yn niweidiol i'r hwn nad oes ganddo wyddor gonestrwydd a thymer dda.—MONTAIGNE.

* * *

MAE adfyd yn galed ar ddyn ambell i dro, ond am bob un all ddioddef hawddfyd mae cant all ddioddef adfyd.—CARLYLE.

* * *

MAE geiriau yn bethau da ond nid y pethau goreu. Ni ellir esbonio y goreu drwy eiriau. Yr ysbryd yn yr hwn y gweithredwn ydyw'r peth mawr.—GOETHE.

* * *

CYFRIFIR a'r pen : o'r galon y daw cymhelliad. Mae'r ddau yn dda yn eu ffordd.—HENRY GILES.

* * *

O Dduw ein Tad, diolchwn i Ti am bopeth sydd yn gwneyd ein dyddiau yn ddedwydd, am y llawenydd a ddaw o'n nerth a'n hynni ac am y tawelwch a'r gorffwys a ddaw gyda henoed. Diolch i Ti am y delfrydau sydd wedi tyfu gyda gwybodaeth ac am y bwriadau a fywiocawyd gan eiriau eneidiau mawr. Am bopeth a'n dug i'th adnabod a'th wasanaethu Di yn well diolchwn i Ti. Dysg ni i ddiolch i Ti yn barhaus am oleuni gwybodaeth a gwersi profiad. Drwy gymundeb a'th Ysbryd Glân Di bydded i'th ddaioni Di fod yn llawenydd a chysur ac ysbrydoliaeth ein bywydau.—AMEN.

Nodiadau'r Golygydd.

Argyfwng.

Mae darllenwyr y papurau newyddion yn hen gyfarwydd a'r gair "argyfwng" erbyn hyn,—yn rhy gyfarwydd. Nid yw'r gair o angenrheidrwydd bellach yn cyfleu'r awgrym sicr o berygl agos wnai gyfleu cyn i bob gair o'r fath golli pob ystyr o gael eu maeddu gan wyr y llythyrennau breision. Mae hi yn "argyfwng" bellach pan y clyw y gohebydd arbennig fod y paffiwr wedi sigo ei fys bach ddau ddiwrnod cyn yr ymladd, neu pan y sibryd y gwifrau fod un o arwyr Hollywood wedi ffraeo a'i wraig newydd am fod y coffi yn glaear ar fore cyntaf y mis mel. Pan y digwydd rhywbeth *sydd* o bwys gallem feddwl fod chwilio ynfyd yn y geiriaduron yn swyddfeydd y papurau, ond mae pen draw i adnoddau'r iaith fwyaf hyblyg, ac ar waethaf ei garpiau bawlyd bu raid wrth y gair "argyfwng" yn y dyddiau diweddaf hyn i ddesgrifio rhywbeth oedd yn teilyngu galw argyfwng arno.

Ni raid ail adrodd hanes y digwyddiadau fu yn ysgwyd y gwledydd. Digon ydyw i ni atgofio ein hunain i Adolf Hitler dori Cyfamod Locarno drwy anfon milwyr yr Almaen i dir ar lan y Rhein oedd i fod heb filwr na chaer. Cynygiodd ar yr un pryd i arwyddo cytundeb wnai sicrhau, meddai ef, heddwch yn Ewrop am bum mlynedd ar hugain. Brawychwyd Ffrainc a'r Iseldir-oedd gan y weithred hon a bu y gwladweinwyr yn ddiwyd iawn am amryw ddiwrnodau yn ceisio osgoi y gwaethaf. Yn hyn o beth bu iddynt lwyddo, ond ansicr iawn ydyw pethau o hyd ac mae llawer o bobl feddylgar a chanddynt deimlad annedwydd fod pethau yn rhy debyg o lawer i'r hyn oeddent yn 1914.

Efallai mai'r cysur pennaf, ar waethaf geiriau gwyllt ac ymffrostio ynfyd ydyw'r ffaith nad oes un wlad yn wirioneddol awyddus am ryfel *yn awr*. Mae'n gysur mawr i'r mwyafrif o honom yn ddiamau i feddwl nad yw'r perygl yn uniongyrchol, ond gŵyr y gwladweinwyr yn ddigon da mai'r broblem fawr ydyw heddwch *y dyfodol*.

Y ffaith hon, ac agwedd y gwahanol wladweinwyr tuag at eu problemau, ac yn enwedig ymddygiad y cyhoedd,—y bobl gyffredin, yn wyneb yr argyfwng, sydd wedi gwneud y dyddiau diweddaf hyn yn neilltuol o ddiddorol.

Gwawdied a fynno, un o nodweddion amlycaf y Prydeiniwr ydyw ei gariad at "chware teg". Yn yr argyfwng presennol teimlad na chafodd yr Almaen chware teg yng nghytundeb Versailles nac wedi hynny ac fod ganddi hawl foesol i wneud fel y mynno a'i thir ei hun sydd wedi dylanwadu fwyaf ar farn y cyhoedd yn y wlad hon. Ac yn hyn mae'r dyn cyffredin yn iawn. Diffyg gweledigaeth gwladweinwyr Ffrainc a Phrydain yn 1918 ac wed

hynny sydd i gyfrif am fod Hitler a'i griw yn rheoli yr Almaen heddyw. Ond er fod calon y Prydeiniwr yn ei lle a dim angen i ni gywilyddio o gwbl am i ni fethu bod mor ddialgar a chwerw a'r Ffrancod, *y mae* angen i ni gofio bob munud beth mae Hitler yn sefyll drosto.

Mae chware teg yn gofyn i ni roddi cyfle i Hitler i brofi mai yr oll a fyn ydyw heddwch wedi ei seilio ar gydraddoldeb, ond ni fyddai fawr o chware teg a'r dyfodol i ni anghofio'r cynlluniau mawr a dialgar gyhoeddodd Hitler i'w genedl yn ei lyfr enwog nac ychwaith y llwybr gwaedlyd ar hyd yr hwn y dringodd i'r man lle mae. Mae Hitler a'i gyfeillion yn sefyll dros bopeth sydd yn groes i bob egwyddor gydnabyddwyd yn wareiddiedig gan werinoedd y ganrif ddiweddaf, a phurion i'r dyn cyffredin ydyw cofio nad oes gyfle i'w frawd yn yr Almaen wybod beth ydyw " chware teg " heb son am ddweud ei feddwl. Gad nad pa mor argyhoeddiadol y sieryd Hitler am ryddid a chydraddoldeb rhwng gwledydd mae son am " ryddid " a " chyfiawnder " a " chydraddoldeb " a " chware teg " o fewn yr Almaen yn athrod ar eiriau.

Bu " etholiad " yn yr Almaen y Sul diweddaf ym Mis Mawrth a neb a hawl na chyfle ganddo i ddweud " Nage " i gwestiwn Hitler. " 98 o bob cant o'r bobl o ochr Hitler " meddai ei weision ufudd ac yna y bore Dydd Mawrth canlynol yr ydym yn cael clywed mai un ffordd o ddathlu y fuddugoliaeth fydd erlid mwy eto ar grefydd. Beth mewn gwirionedd sydd i'w ddisgwyl o wneyd unrhyw beth fydd yn debyg o gryfhau dwylaw Hitler ac estyn oes ei awdurdod ?

Yn y cyfamser mae'r awydd i roddi chware teg i Hitler ac i gadw capiau'r Ffrancod yn gywir ar yr un pryd yn gorfodi ein gwladweinwyr i roddi chware teg perffaith i gymrawd ysbrydol Hitler i wneyd ei waethaf yn Abyssinia, a phrotest ar ôl Protest o'r wlad druenus honno yn erbyn nwy a thân a gwenwyn " bydd-inoedd gwareiddiad " yn syrthio ar glustiau byddar.

Dylid wrth gwrs sylweddoli mor anodd ydyw gwaith ein gwlad-weinwyr ar hyn o bryd, ond nid yw rhoddi chware teg iddynt hwy yn golygu na ddylid gofyn yn aml ac o ddifrif beth mewn gwir-ionedd ydyw'r cymhelliadau sydd o'r tu ôl i agwedd gyffredinol ein llywodraethwyr. Protest y werin ac ofn protest mwy digam-syniol eto sydd wedi eu cadw ar lwybr gweddol union hyd yn hyn, ond a oes rhyw wirionedd yn yr awgrym fod eu cydymdeimlad mewn gwirionedd ag egwyddorion ac arferion y Ffasistiaid ? Efallai nad oes, ond os oes, rhaid fod y diafol ei hun yn chwerthin o weld mor ddychrynllyd o ofalus mae amryw o'n " gwerinwyr " blaenllaw mewn senedd a chyngor, ar dudalennau y papurau ac ar y llwyfannau i ddiogelu Hitler rhag unrhyw beth fyddai yn debyg o siglo ei awdurdod. A oes unrhyw obaith yng nghalon unrhyw ddyn rhesymol y daw heddwch parhaol yn Ewrop tra y rheolir gwerinoedd mawr gan ddyhirod rhodresgar ?

Nid oes yr un amheuaeth na chalonogwyd Hitler yn ei weithred ddiweddaf gan wendid Cynghrair y Cenhedloedd yn ei hymdriniaeth a Mussolini ac Abyssinia. Chware teg i'r dyn cyffredin, yr oedd arno wir awydd i wneyd chware teg yn y mater hwnnw, a gwnaeth ei orau,—llwyddodd yn wir i atal yr anghyfiawnder mwyaf digywilydd. Ond swm a sylwedd y cwbl ydyw fod angen difrifol am i egwyddor " chware teg " i weithredu nid yn wyneb digwyddiad unigol ac mewn argyfwng yn unig. Creir argyfwng gan ddiffyg chware teg mewn ystyr eangach a thros diriogaeth eangach o lawer nag a sylweddolir efallai gan y dyn cyffredin, er mor effro ydyw heddyw i wir ystyr pethau.

Gwneir gwawd o bobl sydd yn annog na all dim sicrhau heddwch parhaol ond cynhadledd fydeang i drin ac i drefnu holl broblemau darbodol ac ariannol a thiriogaethol y gwledydd i gyd. Yn sicr daw i hynny ryw ddiwrnod, neu ynte aiff argyfwng yn alanas a bydd yn rhaid ail-ddechreu o'r adfeilion. Efallai y byddai'r dyn cyffredin heddyw yn ddigon effro i fynnu hyn pe calonogwyd ef i ddechreu deffro yn gynt. Pe byddai wedi clywed llai ar hyd y blynyddoedd am " argyfwng " mewn cysylltiad a phethau na chyfrifant ddim, a llai am " alanas " a dim wedi digwydd efallai ond i ryw ffwlcyn meddw a diwerth.

Un o leiaf, ac nid y lleiaf pwysig efallai, o'r pethau sydd yn mynd i sicrhau heddwch a gwareiddiad synhwyrol ydyw i ni ddysgu yn y dyddiau tawel i fyfyrio ar y pethau sydd o bwys, a gwrthod cael ein halogi a'n dyrysu gan y sothach llygredig sydd yn ffrydio yn ddi-ddiwedd o feddyliau afiach yr ysgriblwyr " poblogaidd ".

Y Crysau Duon.

Bum yn son am yr awgrym fod yna rai mewn uchel-leoedd yn tueddu i gydymdeimlo a'r Ffasistiaid. Dywedir wrthym mai y rheswm am hyn ydyw fod y crysau duon yn sefyll yn hanfodol dros ddiogelu " iawnderau " gwaed a golud drwy rym dwrn a bastwn a gwn os bydd raid. O fethu o'n pobl fawr i setlo problemau'r byd drwy rym meddwl a rheswm efallai i rai ohonynt dybio y medr y Ffasistiaid ryw ddydd fod yn ddefnyddiol i atal gwerin ddeffrodd i ddiwerthedd eu meistri rhag dwyn eu hawdurdod oddiarnynt.

Calonogaeth roddir i syniadau fel hyn gan y digwyddiad gymerodd le ychydig ddyddiau yn ôl pan rhuthrodd heddlu ar feirch ar draws tyrfa oedd wedi crynhoi yn Llundain i brotestio yn erbyn cyfarfod Syr Oswald Mosley a'i Ffasistiaid yn yr Albert Hall.

Tuedd y mwyafrif o fobl ydyw cyfrif mai ffwlbri chwerthinllyd ydyw ymgyrch Syr Oswald a'i Ffasistiaid Prydeinig, ac o fod yn bresennol mewn cyfarfod Ffasistiaid mae'n wir anodd i feddwl y gall neb gymeryd y fath wallgofrwydd o ddifrif. Ond ar waethaf y

dwli anghredadwy mae perygl yn bygwth os y creir gronyn o deimlad annedwydd yng nghalonnau dynion fod yr heddlu (a'r awdurdodau o'r tu ôl iddynt) o blaid y crys du a'r dwrn a'r bastwn.

Ysbrydegaeth.

Mae'r dadlau ar Ysbrydegaeth yn mynd yn y blaen yn fywiog flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'r oll y gall dyn di-duedd ddweyd gyda sicrwydd ydyw fod tystiolaeth yr ysbrydegwyr yn argyhoeddi y sawl fyn gredu ac yn methu argyhoeddi y sawl na fyn gredu. Ffroma ysbrydegwyr yn aml, am i rai ohonom fynnu gwahaniaethu rhwng credu yn y digwyddiadau a welwn a chredu yn yr esboniad a gynygir ar y digwyddiadau.

Mae gan y Dr. Harold Dearden eiriau synhwyrol ar y broblem hon mewn llyfr o'i eiddo a gyhoeddodd yn ddiweddar. Mae yn gofyn beth ddylai ei gasgliad fod o weled rhywbeth na welodd o'r blaen, rhywbeth na fu yn rhan o'i brofiad yn y gorffennol. Ynglyn a phethau cyffredin bywyd, o wynebu rhyw ddirgelwch mae dyn yn sicr o dderbyn yr esboniad sydd yn agosaf i fod mewn cytgord a'i brofiad blaenorol. Mae'r doctor yn methu deall paham y gofynnir iddo wynebu dirgelwch yr ysbrydegwyr mewn ysbryd gwahanol. Nid oes mwy o reswm, meddai ef, dros briodoli dirgelwch cadair symudol i ddylanwad ysbrydion nag sydd i'w briodoli i symudiad y ser, sydd yn ddirgelwch hefyd. Mae awyr ffres synnwyr cyffredin yn chwythu drwy'r geiriau yna.

Y Perygl i'r Gwirionedd.

Yn wyneb byd sydd wedi meddwi ar *bropaganda* mae rhai ohonom yn barod i gysuro ein hunain ambell i dro a'r meddwl y myn y gwir orchfygu yn y pen draw. Mae hyn yn ddiamau yn wir ond mae yn burion i ni gael ein hadgofio ambell waith y gall y gwir gael ergyd mor galed nes iddo fethu deffro mewn pryd i atal ga-lanas. Dyna a wna awdur a ysgrifennodd yn ddiweddar ar " Propaganda a'r newyddion." Tybier fod rhywun a'i fryd ar ryw weithred fileinig, megis dryllio cynhadledd heddwch er budd y gwneuthurwyr arfau. Celwyddau yw ei brif arfau ac nid yw yn hidio fawr a ddaw y gwir i'r golau *ryw ddydd* ond iddo fedru ei guddio yn ddigon hir i'w bwrpas ef. Daw y gwir i'r golwg o gael cyfle honom i feddwl eilwaith yn dawel ac yn sobr. Gwaith gwr y celwyddau yw ein cadw i gysgu yn ddigon hir i atal yr ail feddwl yma.—hyd nes y daw ei dasg ef i ben.

Mae cyflwr y byd heddyw yn dystiolaeth ddigonol i lawer ohonom gysgu yn rhy hir eisioes. Efallai mai doethach yn y pen draw fydd cadw yn ddigon effro a sobr i wrthsefyll y gwenwyn cyntaf na dibynnu ar y posibilrwydd y gwnawn ddeffroi yn ddigon buan i atal y cam a'r trybini.

Cegin y Cilie.

[Darlledwyd hyn o siarad, a drefnwyd gan Wil Ifan, o Orsaf Abertawe, Mawrth 13eg, 1936. Yr oedd Wil Ifan ei hun yn absennol oherwydd afiechyd, a chymerwyd ei le gan y Parch. W. D. Evans, Caerdydd.]

Y Cyhoeddwr : Amaethdy unig rhamantus uwchben creigiau traeth Cwmtydu, rhwng Llangrannog a'r Ceinewydd, yw y Cilie. Yr oedd y diweddar Jeremiah Jones y Cilie yn enwog fel caritor gwreiddiol a bardd gwlad ; magodd ef a'i briod lond tŷ o blant, ac y mae o leiaf chwech o'r bechgyn yn gynganeddwyr nad oes eu parotach yng Nghymru gyfan. Fe gewch glywed lleisiau rhai ohonynt heno, os ydynt wedi cyrraedd—bechgyn anodd eu cadw at raglen ydynt !—Fred, sy'n Nhalybont, Tom yn Llangrannog, Dai, neu Isfoel i roi ei enw barddol iddo, Simon a enillodd goron Wrexham, ac Alun sy'n dal i ffarmio'r Cilie. Y mae Wil Ifan newydd gyrraedd clôs y Cilie. (*Y Ci'n cyfarth*).

Simon : Fachgen, hylo ! Be' sy' ar y ci w !

Wil Ifan : Odi'r boys wedi dod ? Fe addawson fod yma. Shwt mae, Simon ?

Simon : Ma' Twm wedi cyrraedd. Fe ddwedodd Mari Hannah fod Alun yn y sgubor. Fe fues yn gweiddi arno fe yno : ond ma'r cyfan fel *vault*. Olwen ! gwed wrth Alun, ble bynnag mae e, yn bod ni ishe'i weld e—a Siors hefyd os gelli ddod o hyd iddo. Dere miwn, Wil.

Wil Ifan : Dyma Dai.

(*Swn pedolau Ceffyl*).

Simon : Ie, ar gefen hen boni wen Bryndules !

Dai (*yn chwerthin*) : Wel, y ddou ffeirad !

(*Swn Gwyddau*).

Simon : Wyddost ti, Wil, bod yr hen geffyl yna'n bymtheg ar hugain oed !

Wil Ifan : Fe ddylai fod cwilydd arnat ti, Dai, i fynd ar i gefen e.

Dai : Ond beth amdana i? Rhaid iti gofio, Wil, y mod inne yn bwrw mlân fel yr hen boni—W-o-o-w'r ebol bach !

Ddaw'm henaint ddim ei hunan—collais nerth
Collais nwyf yr hoywlanc,
Y dyddiau prudd, diwedd pranc
A diwedd bywyd ieuanc.

Lle 'ma Jim, y gwas bach? Jim! O, dyma fe. Dyma iti ganwr, Wil,—cer a'r ebol 'ma i'r stabal, Jim bach, a rho'm bach o fran o'i flân e. Wel, dewch miwn, boys. Fachgen, ma'r hen glacwydd na yn edrych yn ddigalon wedi colli ei feistres amser y gori yma! Wyt ti Simon yn cofio Jack yn mynd a'r hen glacwydd hwnnw mewn basged . . .

Wil Ifan: Trueni na fyddai'r hen Jack yn gallu bod yma heddi . . . ond 'ma'r America'n rhy bell.

(*Swn y Gwyddau—a'r Ci'n cyfarth*).

Dai: Moss! be sy' arnat ti ar ol y clacwydd yna o hyd! Gad lonydd i'r hen widman, druan!

Na fydd grac ar y clacwydd—taw a'r stwr,
Ystyria'i unigrwydd;
Byd anhyfryd ac afrwydd
Yw byw yr haf heb yr ŵydd.

Ond dewch miwn, boys. Ych chi fechgyn y dre bownd o fod yn oer. Twm 'chan!

Twm: Shwt 'ma Wil Ifan yn cadw?

Dai (*Yn chwerthin*): Pam na shigli di law a finne? Sôn am yr hen Jack yr o'en ni wrth ddod miwn.

Twm: O, ie, fe Jack oedd i mistir nhw'i gyd, Wil.

Wil Ifan: Ychydig iawn wy' i'n cofio o bethau Jack. Wyt ti Twm yn cofio rhai ohonynt? Dim ond un sy' ar yng ngof i, ond y mae cynghanedd hwnnw'n rhedeg fel dŵr—

Ifan, pwy all ei anghofio?—Selyf
Llandisiliogogo;
Dyn oedd a sôn amdano,
A'r hen frawd gorau'n y fro.

Simon: O ie, ar ôl yr hen Ifan Pendderwfach, ontefe?

Twm: Beth am hwn i'r cornicyll?

Aderyn yr ucheldiroedd—ysgafn
Ar esgyll y gwyntoedd,
Ar chwiffawl hynt dyrcha floedd
Ddarogana ddryghinoedd.

Dai: Ie, rhaid cofio'r *chwiffawl*! (*Chwerthin*).

(*Swn drws yn agor*).

Alun: Beth yw'r ffair sy' ma?

Simon: Pam na fyset ti Alun yn sefyll gatre fel gwr bonheddig i groesawu Wil Ifan? Lle mae Siors?

ALUN : O wel, os nad yw hi'n rhy ddiweddar,—Croeso i'r Cilie ! (*Chwerthin*). Fe hales Olwen i hôl Siors, ac fe ddwedodd na ddaw e ddim, ac i ni fynd mlân a'r cart. (*Pawb yn chwerthin*).

WIL IFAN : Welsoch chi englynion diwethaf Siors ? *Ma* nhw'n dda.

DAI : Yr unig un weles i oedd hwnnw i Ewyn y Rhyd—gwed e Alun, 'rwyt ti yn gwybod pethe Siors yn well na fi.

ALUN : Yn ei grym . . .

DAI : Nage, nage,—cyfansoddi 'rwyt ti 'nawr, treia di 'to 'i.

ALUN : O ie, fel hyn :

Yn ei rhuthr wrth feini'r rhyd—yr afon
Dan liw profiad dryslyd
Yn boer ffrom y berwa'i ffrwd
Is triniaeth rhwystrau ennyd.

WIL IFAN : Ond nid dyna'r englyn oedd y golygydd yn ganmol fwyaf : rhywbeth amdano yn aredig banc Gaer Wen, ac ar grib y graig, rhwng stwr y môr a distawrwydd llethol y tir.

ALUN : O, " Troi'r Banc " sydd gyda ti, wy' i ddim yn eitha siwr o'r cyrch—

Er mor ddiffaith yw weithian—daw rhyw hwyl (neu, daw i'r we
Wrth droi'r henfanc truan :
Ust tir a'r môr yn stwyrian
Ar bob ochr i grib y ban.

SIMON : Ma'r hen Siors yn lot o foe pan aiff e ati hi.

DAI : —Ust tir a'r môr yn stwyrian ! (*Chwerthin*).

WIL IFAN : Rwy'n clywed mai telynegion yw dy bethe mawr di Alun y dyddie hyn, beth wyt ti Twm yn feddwl ?

TWM : Os ca' i roi mhig miwn : 'rwy'n siarad fel bachan bach sydd heb ddwyno'i fys ag englyn erioed—ac mi fyse mwy o siap arnoch chithe, boys, i gyd, pe baech chi'n gweithio mwy a barddoni llai—ond mynd i weud own i mai englynion yr hen Alun yw'r pethe alla i'u cofio ore o bopeth. Pob parch i'r 'Steddfod Genedlaethol, ond beth am englyn Alun i'r pentan—adrodd di Dai e.

ALUN : Gadwch ych dwli nawr, boys bach.

DAI : Stopa di nawr i weld a alla i gofio fe,—O ie—

Caer ddu bob tu i'r tân—man teulu,
Rhamant aelwyd gyfan,
Oeda hedd hir a diddan
Chwedl o'i gylch a hudol gân.

Beth amdano Simon ? Ti yw'r bardd Cenedlaethol sy gyda ni 'ma esgus !

Simon : Mae'n dda bod 'na rwbeth i hala dipyn bach o ofan arnat ti Dai ! O odi wir, mae'n englyn da. Ond yr englyn Gwawn yw'r peth gorau sy gyda Alun yn ol y marn i—

Ysgafn gwrlid o sidan—a luniwyd
I ddiflannu'n fuan,
A dirym edau arian
Ar hyd y foel yn rhwyd fân.

Alun : Wel boys, os nad ych chi'n bod yn ddistaw am y pethe sgribles i, bydd yn rhaid i chi glirio mâs !

Wil Ifan : Ond adroddwch un o delynegion Alun wir, Simon.

Simon : Olreit te, yr un fach fer honno i " Godi Cefn."—

CODI CEFN.

O fôn y clawdd ym min yr hwyr
Cyfyd o'i stôl o wellt,
A thaflu llygad dros y twr
O gerrig dellt.

Fe sych y chwys o'i rychiog dâl
A chefn ei gorniog law,
A thery'i forthwyl yn y gwrych
Ynghyd â'i raw.

Mae'i seren bellach yn y nen,
A thry tan ganu'n iach
Gan fwrw dros luddedig war
Ei gwd a'i sach.

[waeth
Mae'r garn ar hanner, a pha
Os ydyw yn ddi-drefn—
Mae fory cŷd â heddiw'n siwr,
Rhaid codi cefn.

Wil Ifan : Wel, beth am gael clywed rhai o hen englynion eich tad, mi leiciwn . . .

Dai : O'r hen Fred sy'n gwybod rheini orau—dyma un i ti nes daw Fred, os daw e o gwbwl—un i'r elor-gerbyd :

Yr olaf gerbyd yw'r elor—o'r byd
Gyr i'r bedd ei drysor ;
A'i dduwch, och, a ddeor
Ing a braw pan ddaw i ddôr.

Simon : Wel, 'na beth od, 'chlywais i mo hwnna erioed o'r blaen. Wrth gwrs, mae pawb ohonom yn gwybod Tair Erw a Buwch, y gân a wnaeth nhad amser Lecsiwn y Ddaear i'r bobl pan oedd Chamberlain yn Lib'ral. Ond fe arhoswn nes daw Fred : rhaid *canu* honno i Wil boys. Twm ! cân di benillion Dai er cof am Shinkin Lewis, Troedyrhiw.

Dai : Twm ? Pam na alla i canu nhw'n hunan ? Wyt ti'n gweld, Wil, 'dyw Simon 'ma ddim bolon bod 'da fi gystal llais ! petae'n llais i gydag e, fe fydde gwell llewyrch ar bulpud Peniel. Ond dere 'mlân te, Twm : fe helpwn ni di os aiff hi'n nos arnat ti !

Twm : 'Rwy'n gwybod y *diwn*. Pwy ond Dai fydde'n meddwl am ganu marwnad ar Hob y Deri Dando ? Ond, fact, 'dw i ddim yn siwr o'r geire.

Dai : Ond fe helpwn ni di bachan ! Dere mlân, neu wy'i yn 'u canu nhw'n hunan.

Twm : Nawr te, gad fi gael sŵn. (*Yn cymryd sŵn, yna'n canu*).

Mewn hen fwth gerllaw Cwmtydu
Yno trigai Shinkin,
Cynnyrch natur wedi tyfu
Rhwng y grug a'r eithin.
Sŵn y môr fu yn ei glustiau
Tra fu byw,
Ni symudodd mwy na'r bryniau
Cristion gwiw tra fu byw,
Dyna Shinkin Lewis, Troedyrhiw.

(*Y bechgyn i gyd yn uno yn y Cytgan ar ol pob pennill*).

Dai : Go lew, Twm ! allwn i ddim gneud yn well yn hunan, bachan !

Twm :

Hen adeilad uwd a sospen
Heb ddim fawr o drimyn,
Safai'n gadarn fel y dderwen
Yn y gwres a'r ddrycin,
Etifeddodd asgwrn cefen
Cryf yn llyw,
Yn y meysydd oedd ei elfen,
Cristion gwiw tra fu byw,
Dyna Shinkin Lewis, Troedyrhiw.

(*Cytgan*).

Twm : Gwelais . . . (*ac yn aros*).

Dai (*Yn canu*) : Gwelais ef yn rhodio'r dyffryn,—Dere 'mlân boe—

Twm (*Yn cydio*) :

Gwelais ei gynhebrwng,
Teimlai'r dorf fel tywallt deigryn,
Cafodd angladd teilwng.
Ar ei arch, mi welais dusw
Blodau byw
Yn arogli fel ei enw ;
Cristion gwiw tra fu byw,
Dyna Shinkin Lewis, Troedyrhiw.

(*Cytgan*).

(*Yn ystod y Cytgan clywir swn symud Cadeiriau*).

ALUN : Dyma Fred wedi dod o'r diwedd.

FRED : Cymanfa Ganu sy gyda chi 'ma ? (*Chwerthin*).

SIMON : Ie, dere mlân—oes Côr Aelwyd i fod yn Eisteddfod Machynlleth, i ni gael *chance* i gystadlu ?

WIL IFAN : Wel, Fred ?

FRED : Hylo Wil,—William Ifan lym ei ofid.

WIL IFAN : Wyt ti'n cofio, Fred, am danat ti'n canu " Yr Ornest " yn Steddfod y Coleg ?

FRED (*Yn dechrau canu*) : " I bentre'r Sir oedd Pobl Môn " . . .

DAI (*Yn gweiddi*) : Stopwch e, boys !

ALUN : Gad hi heno, Fred, da machan i, 'ma dynion dierth 'ma !

(*Fred yn stopio*).

FRED : Weli di, William, y croeso ma' dyn yn gâl ar ei aelwyd i hunan !

DAI : Nawr, Fred, y mae Wil wedi bod yn disgwyl wrthyt, i gâl clywed rhai o englynion nhad : nid y mod i ddim yn 'u gwbod nhw, ond ma Wil yn rhyw gredu mai ti sydd yn gallu'u hadrodd nhw.

FRED : Wel, fe fydda i debig o roi'r gynghanedd yn weddol gywir, nid fel rhai ohonoch chi, boys. Dyna'i englynion e i'r milwr :

Gwr ieuanc beiddgar a hoew—a gwisg
O liw'r gwaed am hwnnw ;
A dyn i ladd, o dan lw,
Y gelyn pan fo galw.

Y milwr, gŵr didrugaredd—a'r dryll ;
Trwy drais myn anrhydedd ;
Hwn geidw a gloew gledd
Arswyd a pharch yr orsedd.

(*I'w barhau.*)

Bod yn ffyddlon i'r eithaf i'r Gwirionedd a dilyn Cydwybod pan yr oedd llanw barn dynion yn llifo i'r cyfeiriad arall fu y moddion godidog drwy ba rai y taenwyd y goleuni. Nid ydym i amcanu am lwyddiant na dylanwad ond am oleuni ac ufudd-dod. Pe byddai Iesu wedi meddwl am ddylanwad ni fyddai erioed wedi cyfeillachu â phublicanod a phechaduriaid, nac wedi golchi traed ei ddisgyblion. Byddai meddwl am ddylanwad wedi cadw Sant Francis o Assissi yn gyfoethog ac yn ffasiynol. Y symlrwydd bwriad yma sydd yn rhoddi cysondeb i fywyd.—W. C. BRAITHWAITE.

Tipyn o Bopeth.

Wel, y mae " Gwyl Dewi " am y flwyddyn un fil naw cant tri deg a chwech ymhlith y pethau a fu. Credaf fod pob peth a ellid ei ddweyd am yr wyl ac am yr hen " Sant " wedi ei ddweyd y diwrnod hwnnw, a gwastraff ar eiriau fyddai ceisio ychwanegu at yr ymadroddion. Enw Dewi glywid yn adseinio yn yr awyr o godiad haul i'w fachlud. Yr oedd yn iechyd i'r galon i weld a chlywed cymaint o frwdfrydedd ynglyn a'r ŵyl ymhob cyfeiriad, ac yn enwedig i glywed yr anerchiadau Cymreig yn diasbedain o Pittsburg yn Unol Dalaethiau'r Amerig. Prawf hyn na wna'r Cymro anghofio gwlad ei febyd gan nad pa mor bell y crwydra.

Y mae llawer o wahanol farnau ynghylch bywyd " Dewi Sant," ond cytuna pawb yn y farn ei fod yn ddyn duwiol a da, ac yn sicr, ble bynnag y ceir dyn yn feddiannol ar y rhinweddau hyn, mae yn llawn deilwng o'r enw " Sant."

Tebyg fod pobl Llanddewi-Brefi yn falch o'r bryn ger y pentref, a gododd o'r gwastadedd (yn ol yr hanes) pan oedd Dewi yn pregethu arno. Mae'n debyg fod Eglwys wedi ei chodi ar y bryn yn awr.

Wedi i'r ŵyl basio, na fydded i ni anghofio'r ffaith nad mater un diwrnod ydyw " Codi'r Hen Wlad yn Ei hol," ac nad ar eiriau yn unig y gwneir hynny. Cyn y gellir hyrwyddo dyrchafiad gwlad, mae'n rhaid wrth rywbeth amgenach na geiriau.

Y mae hyn yn fy atgofio am bregeth a glywais beth amser yn ôl gan efrydydd ieuanc o'r Coleg. Ei destun oedd " Dameg y Samaritan Trugarog," a wnaeth drugaredd a'r teithiwr a syrthiasai ymysg lladron, y rhai, wedi ei ddiosg a'i archolli, a'i gadawsant yn hanner marw.

" Nid yw o un diben " meddai'r efrydydd, " i ddyn i ddweyd ei fod yn Gristion os nad yw ei weithredoedd yn profi hynny." " Gweithredoedd, ac nid geiriau sy'n dangos cyflwr calon dyn " meddai.

Yng nghwrs ei bregeth siaradai am y rhyfel presennol. Credai ef y gallesid atal y rhyfel pe buasai'r pwerau eraill yn gweithredu ac nid siarad. Credai y dylasai Prydain roi arweiniad yn y cyfeiriad yma. " Ond ni wna Prydain ddim ond siarad, 'dyw hi'n ddim ond " All froth and no pop " meddai. Cyffelybai Brydain i'r offeiriad yn y ddameg, yn gweld y teithiwr yn ei waed ar fin y ffordd, ond yn lle ei helpu, yn mynd o'r tu arall heibio. Yna cyffelybai Ffrainc i'r Lefiad, yntau hefyd yn mynd o'r tu arall heibio yn hytrach nag ymgeleddu'r truan clwyfedig. Yna daeth dyn a thrugaredd yn ei galon heibio, sef y " Samaritan Trugar-

og," a gyfrifid gan yr Iddewon yn ysgymunbeth. Efe a wnaeth drugaredd a'r clwyfedig, ac a achubodd ei fywyd.

"Ym mha le y mae'r Samaritan Trugarog heddiw?" meddai. "Y mae ef a'i relyw wedi darfod o'r tir, dyna'r rheswm am gyflwr truenus y byd ar hyn o bryd. Pe bodolai'r Samaritan heddiw, buasai'r Ethiopiaid wedi eu rhyddhau o grafangau'r gelyn er's tro," meddai.

"Rhydd i bob dyn ei farn, ac i bob barn ei llafar." Ond nid oeddwn yn hollol unfryd ag ef ar bob pwnc. Mae'n anodd iawn gwybod beth i feddwl am y sefyllfa, ac nid wyf fi'n ddigon hyddysg mewn gwleidyddiaeth i ffurfio barn ar y mater. Nid rhyfedd hyn ychwaith, pan mae gwleidyddwyr profiadol yn methu dadrys y dryswch, ond gwn mai gwell i mi, os am ben iach, ydyw meindio fy musnes fy hun nag ymyryd, pan fo dau gymydog i mi yn ffraeo.

Wedi'r cyfan, unigolion sydd yn gwneud cymdeithas; pe bae pob unigolyn yn meddwl ac actio yn nhermau heddwch, buasai'n amhosibl i ryfel ffynnu o gwbl.

Yn anffodus, mae'r byd ymhell iawn o fod yn heddychlon yn ei agwedd, yn enwedig felly, arweinwyr y gwledydd. Y maent hwy fel Napoleon gynt, yn sychedu am enwogrwydd ac amlygrwydd. Gresyn na fuasent yn cofio ei ddiwedd fel alltud yn St. Helena.

Ni wnaeth y cledd erioed ddyn na gwlad yn fawr yng ngwir ystyr y gair, am ei fod yn groes i egwyddorion Cristionogaeth. Er gwaethaf rhodres ac ymffrost dyn, nid yw ei fawredd yn ddim ond sofl os na fydd wedi ei sylfaenu ar gariad a chyfiawnder, y rhai sydd o Dduw.

A. Rees.

Priodas.

Mawrth 17, yng Nghapel-y-Fadfa o flaen y cofrestrydd, Mr. Sydney Clive James, Brynteify, Cwmanne, Llanbedr a Miss Margaret Davies, merch Mr. a Mrs. Samuel Davies, Awelfa, Capel-y-Fadfa, Llandysul. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a J. Marles Thomas, M.A., gyda Miss Lil Lewis wrth yr Organ.

Marwgofion.

Mercher, Mawrth 11, JOHNNIE EVANS mab y diweddar John a Margaret Evans, Bryneryr, Talgarreg, yn 25 oed. Gan ei fod yn amddifad o dad a mam ers blynyddau cartrefai lawer gyda chwaer iddo a'i phriod yn 9, Cambrian Terrace, Llandysul, ac yno y bu farw ar ôl rhyw dri diwrnod o gystudd caled iawn. Claddwyd y Sadwrn dilynol yn ymyl llwch ei rieni ym mynwent Pisgah,

Talgarreg, pryd y cafodd angladd parchus iawn. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rhydderch, B.A., Seion, Llandysul a phregethwyd yn y Capel gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. D. O. Jones, Pencae; Parch. J. Marles Thomas, M.A., a'r Parch. Gwilym Morris, Pisgah.

Yr oedd yn aelod o gynulleidfa Capel-y-Fadfa lle y bu llawer o'i hynafiaid yn aelodau blaenllaw yn eu dydd. Bachgen siriol ac o ysbryd diniwed oedd Johnnie Evans—un a hoffid yn fawr gan lu o gyfeillion. Cyflwynwn ein cydymdeimlad i'w frawd, a'i ddwy chwaer a holl gylch ei berthynasau.

Sul, Mawrth yr wythfed, bu farw Mrs. MARGARET JONES, Penbanc, Temple Bar, plwyf Llanfihangel-Ystrad, yn 65 mlwydd oed. Gweddw y diweddar Timothy Jones, a fu byw yn Mhenbwlch, yn yr un plwyf ydoedd. Symudodd hi a'i theulu o Penbwlch i Gorseinon, yn Neheudir Cymru, a buont fyw yno hyd farwolaeth ei phriod. Cafodd gystudd o amryw fisoedd. Yn Mhenbanc yr oedd ei rhieni, John Jones ac Elizabeth Jones, yn byw, ac yno y mae un o'i brodyr, sef Joshua Jones yn awr. Bu Joshua Jones am flynyddau yn perthyn i heddlu Llundain. Un yn caru bod yn y cudd ydoedd, a byth yn awyddus am amlygrwydd. Yr oedd yn nodedig am ei hysbryd siriol, ac yr oedd sirioldeb yn llewyrchu yn danbaid o'i gwyneb pryd. Mwy hoffus ydoedd oblegid y gwyleidddra a berthynai iddi, a hithau yn gymeriad mor ododig. Ym myd hedd a thangnefedd yr oedd yn trigo, ac nid oedd y garw a'r trystfawr yn gallu byw yn ei hawyrgylch. Ar ôl ei cholli y gwelir nodweddion heirdd ei bywyd ac y sylweddolir y cymeriad prydferth a feddai. Gellir darlunio ei bywyd mewn dau air, sef hardd a thangnefeddus. Claddwyd ym mynwent Rhydygwin. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd mewn galar dwys un mab, yr hwn sydd yn briod, dwy ferch, tri brawd, dwy chwaer, neiaint a nithoedd, a chefnderoedd a chyfnitheroedd. Nerth a gaffont i fyw mewn ffydd hyd ddydd yr ail uno.

Blin gennym gofnodi marwolaeth ANNE JONES, priod David Jones, Troedrhiwfawr, Llandysul, Chwefror 17, a hi yn 61 oed. Dynes weithgar, dawel, dyner, yn caru ei theulu ac wedi gwneud pob aberth drosto. 'Roedd yr ymadawedig wedi ennill serch cylch eang o gyfeillion, ac fe welir ei heisiau yn fawr yn ei chartref a'i chymdogaeth. Duw a ddiddano ei phriod a'i phlant,—un o honynt yw ein cyfaill addawol, Mr. E. Griffith Jones, Coleg Caerfyrddin. Claddwyd ei gweddillion ym Mhantydefaid Chwefror 20; gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, yn y Capel gan y Gweinidog ac ar lan y bedd gan y Parch. S. Evans Bowen.

Wedi hir gystudd a ddioddefwyd gydag amynedd gwir Gristionogol, hunodd, Chwefror 27, ELIZABETH ANNE JONES, priod John Ceredig Jones, Derwydd, Llanfihangel-ar-arth, Llandysul, yn 63 oed. Hynodwyd ei chymeriad a thawelwch a mwynder mawr ac mae'r teulu mewn hiraeth dwys ar ei hol. Ar ddydd ei hangladd, Mawrth 2, gwasanaethwyd yn y tŷ gan Ficer y Plwyf, ac ym mynwent Pantydefaid gan y Gweinidog.

Chwefror 21, claddwyd ym Mhantydefaid, MARY LLOYD, Sein, Llandysul, yn 79 mlwydd oed. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan Ficer Llandysul, ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog.

Bu farw MARY REES, gynt o Gelligron, Pontshan yn nhy ei merch, yn Acton, Llundain, Mawrth 15, yn 79 oed. Dygwyd ei chorff i Landysul, Dydd Iau, Mawrth 19, a chladdwyd ym mynwent Pantydefaid yr un dydd, y Gweinidog yn gwasanaethu yn y Capel ac yn y fynwent. Estynwn ein cydymdeimlad i'r teuluoedd hyn oll.

Mawrth 4, yn ei chartref, 4, Earl Street, Hafod, Abertawe, yn 43 oed, bu farw ELIZABETH REES, annwyl briod Thomas Rees, a merch i Evan a Jane Davies, Frondeg, ger Cribyn, gan adael priod, tair merch, tad a mam, chwaer a brodyr, ynghyd a pherthynasau agos eraill, mewn galar dwys o'i cholli. Byr a fu ei chystudd olaf—ychydig gyda phythefnos ; eithr ni bu ei hiechyd yn foddhaol er y bu dan driniaeth feddygol yn Ysbyty Abertawe yr haf diwethaf. Pan oedd ieuanc arferai fynychu Capel Cribyn, ac ymaelododd yno. Wedi iddi symud at ei phriod yn Abertawe, mynychai gapel Ebeneser (A), a chymerodd ei lle fel aelod yno ; o hynny hyd yr analluogwyd hi gan afiechyd, bu'n aelod ffyddlon ; ac ar ddydd ei hangladd, amlygodd nifer luosog o'i chydaelodau eu parch iddî trwy hebrwng a oedd farwol o honi i fynwent Cribyn, yn ôl ei dymuniad. Yn ei anerchiad yn y Capel, dug ei gweinidog, y Parch. Edward Jones, dystiolaeth uchel iddi fel priod a mam, fel aelod o'i Eglwys, ac i'w chymeriad glân. Daeth nifer luosog iawn o drigolion cymdogaeth Cribyn i'r Capel fel arwydd o'u parch iddi hi ac i'w theulu. Cynorthwywyd yn y gwasanaeth gan y Parchn. L. Williams a D. Evans. Chwaraewyd y " Dead March " gan Miss Marsden, Rhydybannau.

Dad a mam, o'ch amddifadu—o ferch,
Gruddiau fyrdd wnaeth wlychu ;
Doeth wylwn gyda'i theulu
Am y fam dyner a fu.

Ei thair merch ynddi serchodd—hoff riain !
Ei phriod a'i carodd ;
Ond o'i hing fry dihangodd
I'r fro wen, ber fu ei rhodd.

Cribin Bach.

Mawrth 6, yn 17 oed, bu farw RHYS MARTIN HOWELLS, mab annwyl Daniel ac Anne Howells, Rhoslwyn, Cribyn, gan adael tad a mam, brodyr a chwiorydd, a nifer luosog o berthynasau agos eraill mewn galar dwys ar ei ôl. Damwain gyda'r modur deurod a fu'n achos o'i farw. Tra yn teithio i gyfeiriad Llanwnen o Gribyn yng nghwmni cyfaill, daeth eu deurodyn i wrthdarawiad a cherbyd modur arall, a thaflwyd y ddau i'r llawr nes colli o honynt eu hymwybyddiaeth. Daeth nifer luosog o bobl yn fuan i'r lle, a gwnaed popeth a oedd bosibl i'w hadfer. Wedi i'r meddygon gyrraedd, aed a'r ddau i Ysbyty Aberaeron ; eithr bu farw Rhys Martin cyn cyrraedd. Bachgen o gymdogaeth Pontshan oedd y llall, ac aelod yn y Llwyn. Creodd y newydd am farw Rhys Martin don o dosturi a chydymdeimlad a galar trwy gymdogaeth eang ; oblegid dyn ieuanc ydoedd a hoffid yn fawr gan bawb a'i hadnabyddai. Gweithiai mewn " ffatri " ger y pentref ; a dug ei feistr iddo dystiolaeth uchel fel gweithiwr ffyddlon, gofalus, a hawdd ei drin, ac addawai iddo ddyfodol o lwyddiant a defnyddioldeb mawr pe cai fyw. Dyna'r dystiolaeth gyffredinol am dano. Praw digonol o'r anwyldeb o hono ef, yn ogystal ag o'r cydymdeimlad cyffredinol â'r teulu, oedd y dorf anarferol luosog a ddaeth ynghyd ddydd ei angladd y Mercher dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, Llwyn; wrth y drws cyn cychwyn, canwyd " Calon Lân," ei hoff emyn ; yn y Capel, traddodwyd anerchiad byr gan y Parch. D. Evans, a chymerodd y Parch. S. Evans Bowen ran ; ar lan y bedd gweddiwyd gan y Parch. L. Williams, Rhydygwin. Chwaraewyd y " Dead March " gan Miss Jones, Cwmynach.

Dirybudd dros ein gruddiau—daw'r dagrau
Drud ogryn damweiniau ;
O gael ifanc tan glwyfau,
Naf ! e rwyg ein calon frau.

Cribin Bach.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—

THOMAS THOMAS, YSW., SPRING GARDENS, LLANDYSUL.

— CYNHELIR —

Cyfarfodydd y Pasg

Y GYMDEITHAS UCHOD YNG

NGHAPEL CILIAU AERON

— AR —

Hwyr Mercher a Dydd Iau, Ebrill 15 a 16, 1936

Trefn y Cyfarfodydd—

NOS FERCHER am 6.30 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. E. R. DENNIS a J. MARLES THOMAS, M.A.

BORE IAU am 10.30 o'r gloch, PWYLLGOR Y GYMDEITHAS.

(1) Darllen Cofnodion.
(2) Gair gan y Trysorydd.
(3) Ethol cynrychiolydd ar Gynghor y Gymdeithasfa Gyffredinol.
(4) Darllen llythyr o'r Amgueddfa Genedlaethol.
(5) Lle cynhaliad y Cyfarfodydd Blynyddol.
(6) Estyn croesaw i Lywydd y Gymdeithasfa Gyffredinol.
(7) Unrhyw fater arall.

PRYNHAWN IAU am 2 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. E. O. JENKINS a J. D. JONES, B.A., B.D.

HWYR IAU am 6 o'r gloch pregethir gan y PARCHN. T. O. WILLIAMS, M.A. a T. L. JONES.

Bydd GEORGE G. ARMSTRONG, YSW., Llywydd y General Assembly, yn y Cyfarfodydd, a disgwylir ef i roddi anerchiad yng Nghyfarfod prynhawn Iau.

E. O. JENKINS.

J. D. Lewis a'i Feibion, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. Mc LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. **7/6** net (by post **8/-**). Leather bound, gilt edges, **10/6** (by post **11/-**). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price **1/-** (by post **1/1**). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price **1/-** (by post **1/1**). Cloth, **2/-** (by post **2/2**).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price **6d.** (by post **7d**).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. **1/-** each (by post **1/1**).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.